Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Gofal Plant Dechrau'n Deg Llanfawr**

**Ysgol Llanfawr**
**Ffordd Tudur**
**Caergybi**
**LL65 2DS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gofal Plant Dechrau'n Deg Llanfawr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir. | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Gofal Plant a Gwasanaethau Chwarae Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Tachwedd 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae llesiant y plant yn ffynnu. Maent yn dangos diddordeb a rhyfeddod wrth ddarganfod drwy eu chwarae a'u profiadau dysgu. Mae'r plant wrth eu bodd ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd iawn â'r drefn o ddydd i ddydd. Mae'r plant yn dangos diben a chwilfrydedd wrth iddynt gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brofiadau diddorol dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson ysgogol, ac mae'r plant yn cydweithredu'n frwdfrydig ac yn teimlo eu bod wedi'u hysbrydoli ac yn llawn cymhelliant. Mae'r plant yn meithrin sgiliau annibyniaeth a sgiliau hunangymorth cynyddol.

Mae'r staff yn ymrwymedig, yn broffesiynol ac yn angerddol am y gofal y maent yn ei ddarparu. Maent yn cefnogi'r plant i gyfathrebu'n arbennig o dda ac yn dathlu eu mamiaith. Mae eu rhyngweithio'n effeithiol ac yn ystyrlon. Mae'r staff yn ymateb i anghenion unigol yr holl blant yn dda ac yn sensitif ac yn eu cefnogi'n bwrpasol ym mhob agwedd ar eu chwarae a'u profiadau dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd sy'n groesawgar a diogel. Mae'r ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Maent yn sicrhau bod dodrefn o ansawdd da, sy'n briodol i oedran y plant, ar gael iddynt, yn ogystal â chyfarpar dan do ac yn yr awyr agored er mwyn ysgogi eu diddordeb a'u dychymyg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ddynamig ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth. Maent yn angerddol am gynllunio profiadau a chyfleoedd diddorol a gwerth chweil er mwyn gwella a chyfoethogi bywydau'r plant, eu teuluoedd a'r staff sy'n gweithio yn y lleoliad.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r plant yn cael cyfleoedd cyffrous i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. O ganlyniad, mae eu llesiant yn ffynnu.

Mae'r plant yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfathrebu'n effeithiol. Maent yn defnyddio arwyddion a symbolau er mwyn gwneud eu ceisiadau. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, gwnaeth y plant gyfathrebu'r arwydd ar gyfer 'mwy' ac ymatebodd y staff i'w cais ar unwaith. Gwnaeth hyn y plant yn hapus. Mae'r plant yn siarad yn frwdfrydig â'r staff am eu teuluoedd ac yn dangos sut maent yn helpu eu rhieni / gofalwyr gartref. Er enghraifft, dywedodd plentyn eu bod yn hoff o helpu ei 'mummy' a dangosodd hyn drwy ddefnyddio eitemau yn y gornel gartref er mwyn dangos sut y gwnaeth olchi a sychu'r llestri. Yn ystod amser chwarae yn yr awyr agored gofynnodd plentyn am helmed 'pinc', ac ymatebodd aelod o staff i'r cais hwn ar unwaith. O ganlyniad, roedd y plentyn wrth ei fodd yn gwisgo ei helmed ddewisol ac yn pedalu ar ei feic yn falch.

Mae'r plant yn ymdopi wrth wahanu oddi wrth eu rhieni / gofalwyr yn arbennig o dda oherwydd mae'r cyfnodau trosglwyddo'n effeithlon yn cydnabod ac yn cefnogi eu hanghenion unigol yn llwyr. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd iawn â'r drefn o ddydd i ddydd. Er enghraifft, maent yn torchi eu llewys cyn golchi eu dwylo ac yn helpu eu hunain i fyrbryd, gan arllwys diod o laeth neu ddŵr iddynt eu hunain. Mae'r plant yn hyderus i wahodd y staff i gymryd rhan yn eu chwarae. Er enghraifft, dangosodd a siaradodd un plentyn â'r staff am y ffordd y gwnaeth gymysgu'r pridd a'r dŵr cyn rhoi'r gymysgedd i mewn i botiau planhigion bach.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson ysgogol, ac mae'r plant yn cydweithredu'n frwdfrydig ac yn teimlo eu bod wedi'u hysbrydoli ac yn llawn cymhelliant. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn arbennig o dda, gan gymryd rhan mewn trafodaethau ysgogol a dychmygol. Er enghraifft, roedd y plant yn chwarae â'r twba dŵr sebon cynnes gan gymryd eu tro i lenwi a siarad am deganau creaduriaid y môr. Maent yn dysgu am garedigrwydd. Er enghraifft, helpodd un plentyn ei ffrind drwy ddal jwg er mwyn iddo allu arllwys dŵr iddo drwy ddefnyddio can dyfrio. Roedd plant yn dal dwylo ei ffrind yn dyner er mwyn cerdded i'r ardal chwarae awyr agored. Maent yn cydweithredu'n gadarnhaol er mwyn tacluso eu teganau a brwsio unrhyw dywod a phridd a gafodd eu gollwg o'u chwarae.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant, yn llawn bywyd ac yn llwyr ymroi i chwarae a dysgu. Maent wrth eu bodd yn cymryd rhan mewn cyfleoedd diddorol ac ysgogol dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, roedd plentyn yn brysur yn trefnu'r cyfarpar chwarae meddal er mwyn creu cwrs rhwystrau. Dangosodd i'r staff yn hyderus sut y gallai gerdded ar draws y cwrs yn llwyddiannus. Yn ystod amser stori, roedd y plant yn mwynhau dod â'r stori a'r caneuon yn fwy drwy ddefnyddio amrywiaeth o bropiau. Er enghraifft, gwnaethant ddefnyddio cadach glas sgleiniog ar gyfer y môr a gosod y pypedi crocodeil ar ei ben. Gwnaethant ganu am sut mae'r crocodeiliau'n nofio a chreu golygfa hyfryd.

Drwy gydol eu chwarae a'u profiadau dysgu mae'r plant yn ymarfer eu lliwiau, eu rhifedd ac yn datblygu eu sgiliau iaith yn effeithiol. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da o gyflawniad a hunan-barch uchel. Er enghraifft, arbrofodd y plant â throsglwyddo pwysau drwy ddefnyddio byrddau cydbwyso a bagiau ffa. Roeddent yn dathlu wrth iddynt gydbwyso'r pwysau ar y bwrdd i'w weld yn mynd i fyny ac i lawr.

Mae gan y plant gyfleoedd ardderchog i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi iddynt wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac i ddatrys problemau'n effeithiol, datblygu'n greadigol, arbrofi a bod yn ddychmygol.

## Gofal a Datblygiad — Rhagorol

Mae'r staff yn broffesiynol ac yn angerddol am y gofal y maent yn ei ddarparu. Maent yn gyson ymatebol ac yn gwrando o ddifrif ar farn y plant ac yn parchu'r barnau hynny. Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol iawn, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn sensitif i anghenion a phrofiadau pob plentyn.

Mae'r staff yn deall polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn llwyr ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r staff yn cyflawni safonau cydnabyddedig uchel mewn perthynas â bwyta'n iach. Maent yn rhoi canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyd a maeth mewn lleoliadau gofal plant ar waith yn llwyddiannus. Mae'r staff wedi cyflawni gwobr arfer gorau gan y bwrdd iechyd lleol am y bwyd a'r diodydd a ddarperir amser byrbryd. Maent yn dilyn gweithdrefnau effeithiol i gefnogi'r plant ag alergeddau ac anghenion deietegol. Mae'r staff wedi ennill gwobrau am roi cynllun brwsio dannedd ar waith er mwyn annog hylendid deintyddol da ymysg y plant.

Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn arbennig o dda ac yn cwblhau cofnodion perthnasol mewn perthynas â damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth yn gywir. Maent yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac yn cofnodi ymarferion tân rheolaidd.

Caiff diogelu ei flaenoriaethu ac mae'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr a hyderus o'u rôl, eu cyfrifoldebau a'r camau gweithredu sydd angen eu gweithredu er mwyn diogelu'r plant. Maent yn cofnodi presenoldeb y plant a'u presenoldeb nhw eu hunain fel rhan o'r arferion diogelu ehangach er mwyn sicrhau bod archwiliad clir o bwy sy'n gofalu am ba blentyn ac ar ba amseroedd yn ystod y dydd. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas i ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal.

Mae gan y staff ddealltwriaeth a gwybodaeth ragorol o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar ymddygiad plant. Er enghraifft, mae'r staff yn annog y rhieni / gofalwyr i gwblhau gwybodaeth am eu plentyn er mwyn eu cefnogi i feithrin strategaeth ofalgar i helpu'r plant i ymgartrefu ac i sicrhau y caiff anghenion unigol pob plentyn eu diwallu. Mae'r staff bob amser yn gweithredu fel modelau rôl da iawn. Maent yn gwerthfawrogi ymdrechion y plant yn gyson ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

Mae'r staff yn rhoi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ar waith yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio'n gynhwysfawr ar gyfer camau dysgu nesaf y plant ac yn adolygu eu cynnydd yn rheolaidd. Mae'r staff yn tynnu sylw at lwyddiannau ac anawsterau'r plant mewn modd sensitif, heb fod yn feirniadol. Maent yn cefnogi anghenion unigol pob plentyn yn sylweddol, drwy ddefnyddio dull sensitif ac ymatebol. Maent yn teilwra gweithgareddau a phrofiadau penodol i helpu pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial. Mae'r staff yn cydnabod pan y gallai fod gan blentyn anghenion ychwanegol ac yn cymryd camau pwrpasol mewn modd amserol, gan wneud defnydd effeithiol o'r gwasanaethau cymorth lleol. Maent yn darparu llawer o wybodaeth i'r rhieni / gofalwyr, fel diweddariadau dyddiol ac unrhyw arsylwadau ar eu plentyn. Mae'r staff yn cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r rhieni / gofalwyr i drafod llesiant a chynnydd eu plentyn.

Mae'r staff yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth ragorol o weithgareddau chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn codi ymwybyddiaeth y plant o'u hardal leol, y gymdeithas ehangach a diwylliant Cymru drwy amrywiaeth o weithgareddau crefft ac amser stori. Maent yn ymgysylltu'n effeithiol pan fydd y plant yn chwarae ac yn dysgu. Er enghraifft, mae'r staff yn gofyn cwestiynau penagored, ac yn gwneud awgrymiadau er mwyn helpu i ehangu meddyliau'r plant yn ystod eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cydblethu profiadau go iawn y plant â'u chwarae yn fedrus er mwyn gwella eu dysgu. Er enghraifft, maent yn annog y plant i wneud cysylltiadau rhwng straeon, caneuon, odlau a'u profiadau eu hunain. Mae'r staff yn rhoi adborth i'r plant sy'n annog tueddiadau dysgu cadarnhaol, fel dyfalbarhad, canolbwyntio a chwblhau.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n ddiwyd er mwyn creu amgylchedd deniadol a diddorol i ddatblygu chwarae a dysgu'r plant yn bwrpasol. Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn lân.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff yr holl wiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau ac maent yn dilyn gweithdrefnau cadarn mewn perthynas ag ymwelwyr â'r lleoliad. Maent yn cwblhau asesiadau risg yn effeithlon ac yn amlinellu'r camau i'w cymryd er mwyn lleihau ac atal risgiau i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn rhoi arferion glanhau da ar waith ac yn dilyn canllawiau rheoli heintiau cyfredol yn dda. Maent yn sicrhau bod y staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol wrth newid cewynnau ac yn ystod amseroedd bwyd.

Mae cynllun yr ardaloedd chwarae yn hybu annibyniaeth y plant yn llwyddiannus, gan eu galluogi nhw i gael gafael ar deganau ac adnoddau yn hawdd. Mae dewis da o adnoddau naturiol ac adnoddau wedi'u hailgylchu i ddatblygu sgiliau synhwyraidd, eu sgiliau ieithyddol, eu sgiliau rhifedd a'u hunanymwybyddiaeth. Mae corneli cyfforddus deniadol yn galluogi'r plant i ymlacio a chael cyfnodau tawel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o deganau, adnoddau, a dodrefn sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Ceir ardal ddynodedig i'r plant storio eu heitemau personol, sy'n creu ymdeimlad o berthyn. Maent yn cyflwyno gwaith celf y plant mewn ffordd ddeniadol ac mae hyn yn dangos i'r plant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. Mae dewis da o lyfrau ar gael, a chânt eu harddangos yn hyfryd, gan annog y plant i'w darllen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn hybu ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas, eu treftadaeth yng Nghymru a'r gymdeithas ehangach yn effeithiol. Er enghraifft, mae doliau a ffigyrau byd bach yn dangos pobl o wahanol ddiwylliannau. Caiff lluniau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau er mwyn dysgu am ddiwylliant Cymru eu harddangos ar y waliau. Er enghraifft, gwisgo i fyny mewn gwisgoedd traddodiadol Cymreig, peintio cennin pedr a dathlu gwyliau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi prynu adnoddau newydd fel teganau naturiol a rhai cynaliadwy, a chyfarpar a deunyddiau cartref er mwyn helpu'r plant i ennyn chwilfrydedd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr ardal chwarae awyr agored wedi'i drefnu'n dda ac yn cynnwys amrywiaeth dda o gyfarpar a chyfarpar dringo i'r plant ddewis o'u plith, ac i ddatblygu eu sgiliau corfforol a'u sgiliau echddygol manwl. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn ailgylchu ac yn ailddefnyddio deunyddiau yn effeithiol i addurno'r ardal awyr agored ac i wneud nodweddion diddorol er mwyn datblygu chwarae a dysgu. Er enghraifft, caiff dewis o gartonau llaeth sydd wedi'u hailgylchu eu defnyddio i wneud safle dŵr diddorol, caiff planhigion bach eu tyfu mewn potiau iogwrt a chaiff darnau o bren eu trefnu i ddenu trychfilod ac i ddatblygu diddordeb y plant am y byd naturiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y gall y plant ddysgu am ailgylchu eu gwastraff bwyd, am blanhigion, ac am dyfu blodau. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am eu hamgylchedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn broffesiynol, yn ddynamig ac mae ganddynt weledigaeth gref ar gyfer y lleoliad y maent yn ei rhannu ag eraill. Mae gweithio mewn partneriaeth yn enghraifft o hyn, gan greu amgylchedd lle mae'r plentyn wrth wraidd popeth a wnaed gan y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gosod disgwyliadau uchel ac yn mynd ati i annog y staff i roi arferion gorau cyfredol ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Maent yn adolygu'r polisïau yn rheolaidd ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn effeithiol ac yn deall eu cyfrifoldebau rheoleiddio. Maent yn adolygu'r cynllun gweithredol yn rheolaidd, gan eu helpu i nodi eu cyfrifoldebau, eu tasgau dyddiol, a'u gweithgareddau yn fanwl. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth ardderchog o'u cyfrifoldebau i hybu'r Gymraeg. Ar hyn o bryd, maent yn gweithio tuag at wobr arian y Siarter Iaith ac yn rhoi rhwymedigaethau Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dadansoddi pob agwedd ar y lleoliad yn effeithiol. Maent yn defnyddio cyngor gan asiantaethau allanol ac yn manteisio ar sylwadau'r plant, y rhieni / gofalwyr, a'r staff i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth yn gelfydd a chefnogi profiadau'r plant o chwarae a dysgu. Er enghraifft, caiff datblygiadau pellach eu hystyried ar gyfer yr ardal chwarae awyr agored, gan roi mwy o gyfleoedd i'r plant chwarae yn yr awyr iach ym mhob tywydd. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau cryf iawn ag ystod eang o weithwyr proffesiynol, y gymuned a rhanddeiliaid eraill er mwyn helpu i greu canlyniadau gwell i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn yn gyson er mwyn diogelu'r plant. Ar y cyfan, mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad, nid oedd tystysgrif gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael ei adnewyddu. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Yn dilyn ein hymweliad, cymerodd yr Unigolyn Cyfrifol gamau ar unwaith a chadarnhaodd bod cais ar waith i adnewyddu'r gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae proses rheoli perfformiad y staff yn llwyddiannus ac mae'n annog y staff i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o sesiynau hyfforddiant ac i gymhwyso'r hyn a ddysgir ganddynt yn effeithiol mewn arferion.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff sesiynau goruchwylio ansawdd da ac arfarniadau eu cynnal. Mae hyn yn sicrhau cysondeb arferion, amser i werthfawrogi ac arfarnu gwaith aelod o'r staff ac i hybu ei iechyd a'i lesiant. Ceir diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dangos esiampl o hyn.

Maent yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio'n dda i sicrhau y caiff cymarebau oedolyn: plentyn ac anghenion unigol y plant eu diwallu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu cysylltiadau ardderchog ag amrywiaeth o bartneriaid. Maent yn gweithio'n agos gyda'r ysgol leol drwy weithgareddau e.e. cymryd rhan mewn cyngherddau tymhorol. Mae'r holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni / gofalwyr yn arloesol ac yn gwbl gynhwysol. Er enghraifft, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynllunio sesiynau teulu a rhieni / gofalwyr drwy gydol y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar anghenion a blaenoriaethau'r gymuned leol, megis rhannu gwybodaeth am fwydydd iach, arferion cysgu'r plant, iechyd meddwl, a grwpiau cymorth llesiant cyffredinol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydweithio â rhieni / gofalwyr er mwyn cefnogi datblygiad cyffredinol eu plentyn, ac mae hon yn elfen effeithiol iawn o waith y lleoliad. Er enghraifft, drwy gynnig llyfrau, adnoddau, a chyfarpar i'r rhieni / gofalwyr eu defnyddio gartref. Mae gan y lleoliad ethos cynnes a chroesawgar, ac mae'r rhieni / gofalwyr yn gwerthfawrogi hynny, gan feithrin cydberthnasau cryf a chyfathrebu agored effeithiol. O ganlyniad, mae hyn yn creu canlyniadau ardderchog ar y cyfan i'r plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod ganddo dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'n rhaid iddo sicrhau ei fod wedi gwneud trefniadau ag AGC i gyflwyno ei dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/05/2024